Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# ADRODDIAD IAITH BLYNYDDOL SCHTh 2021-2022

## Cynnwys

1. **Rhagair........................................................................................................ 3**

2. **Cyflwyniad a Chefndir..........................................................................4**

3. **Strategaeth y Gymraeg..........................................................................4**

4. **Cyflawniadau……………………………………………………….…………………....... 5**

5. **Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac mewn Partneriaeth............... 8**

6. **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg............................................................ 9**

7. **Cyrsiau Cymraeg............................................................................... 11**

8. **Gallu staff o ran y Gymraeg ……………….…………......……..…………….11**

9. **Swyddi Gwag……………………..** ……………………………...…………….....13

10. **Llunio Polisi……………………………………………………...…………..……13**

11. **Anfodlonrwydd.................................................................................... 14**

12. **Lefelau'r Gymraeg...........................................................................15**

## 1. Rhagair

Mae'n dda gen i gyhoeddi’r Adroddiad Iaith Blynyddol sy'n dangos cynnydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae canran uchel o'r boblogaeth yn ardal Dyfed-Powys yn siaradwyr mamiaith Cymraeg, ac felly mae dyletswydd arnom i sicrhau y gallwn, yn ddi-os, ddarparu gwasanaeth dwyieithog, a bod gennym weithlu sydd â'r sgiliau i gyfathrebu â'r cyhoedd yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Fel gwasanaeth plismona rydym wedi parhau i groesawu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gweithlu ac o fewn ein cymunedau. Mae cynyddu ein gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i ddinasyddion Dyfed-Powys yn flaenoriaeth i'r ddau sefydliad.

Byddwn yn parhau i gydweithio er mwyn adnabod arferion gwell ac arloesol sy'n ein helpu i gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y strategaeth a chydymffurfio â'r safonau perthnasol.

Rwy'n falch iawn o'r gwaith a wnaed gennym hyd yma ac rwy'n eich gwahodd i gysylltu â ni os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar sut y gallwn wella'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau yn ddwyieithog.

Dafydd Llywelyn

Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

## 2. Cyflwyniad a Chefndir

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) wedi gweithredu Safonau'r Gymraeg ers 30 Mawrth 2017. Cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru hwy yn unol ag adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Fe'u crëwyd er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Yn ystod 2021-22, mae SCHTh Dyfed-Powys wedi parhau i gofleidio defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, a chyda'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad i'n gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg o ddydd i ddydd. Rydym yn cynorthwyo pob aelod o staff i sicrhau bod cymorth ar gael yn hawdd er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn darparu gwasanaeth o safon uchel i bob cymuned yn ardal Dyfed-Powys.
Pwrpas yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi trosolwg o'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, sut rydym yn hwyluso'r defnydd o wasanaethau Cymraeg a sut y mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau ein bod yn glynu wrth y safonau. Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan SCHTh.
Mae dwy iaith yn cael eu hadnabod yn gyfreithiol yng Nghymru ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn ein darpariaeth gwasanaeth: **Dwy Iaith- Dau Ddewis!**

## 3. Strategaeth y Gymraeg

Mae Strategaeth y Gymraeg yn ddogfen ar y cyd rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Heddlu. Nod y strategaeth yw sicrhau ein bod ni'n datblygu gweithlu sy'n gynrychioliadol o'n cymunedau drwy weithredoedd gwahanol. Mae'n gosod amserlen glir a chynllun i ni fod yn atebol iddo.

Er mwyn deall yn llawn y camau a oedd eu hangen er mwyn sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hymgorffori'n llwyr ym musnes bob dydd SCHTh a'r Heddlu, cynhaliwyd adolygiad thematig i roi gwaelodlin y sefyllfa ar y pryd.
Ystyriodd yr Adolygiad Thematig:

- Data Cenedlaethol yr Heddlu; - Data Heddlu Dyfed-Powys
- Cyfrifiad 2011 – Cynrychiolaeth o'r cymunedau yn ardal ddaearyddol Heddlu Dyfed-Powys, gan ddefnyddio Cyfrifiad 2011
- Casglu data gan Heddluoedd eraill Cymru
- Canfyddiadau gweithwyr o Heddlu Dyfed-Powys, trwy ymweld â gorsafoedd ac adrannau
- Barn y cyhoedd, a gafwyd drwy siarad ag aelodau'r cyhoedd mewn gwahanol ardaloedd

Datblygu gweithlu sy'n cynrychioli ein cymunedau yw nod y strategaeth, drwy:

- Sicrhau bod ein cymunedau yn derbyn gwasanaeth Cymraeg pan ofynnir amdano.
- Denu mwy o siaradwyr Cymraeg i ymuno â gweithlu'r Heddlu a SCHTh; bydd hyn yn galluogi argaeledd cyfartal y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hefyd yn gwella cynrychiolaeth siaradwyr Cymraeg o fewn yr Heddlu o'i gymharu â'r gynrychiolaeth o fewn ein cymunedau.
- Cynnig cyfleoedd digonol i'n staff a'n swyddogion ddysgu Cymraeg yn y gweithle, ynghyd â defnyddio'r Gymraeg yn ystod pob agwedd ar eu cyflogaeth, gan gynnwys hyrwyddo.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol o ran holl bolisïau a gweithdrefnau'r Heddlu a SCHTh, yn hytrach nag yn ôl-ystyriaeth.

Roedd canlyniadau'r adolygiad thematig yn golygu bod modd rhoi cynllun gweithredu ar waith er mwyn bodloni nodau'r strategaeth; nodwyd camau tymor byr, canolig a hirdymor

Mae'r strategaeth a'r holl gamau sy'n cyfrannu ati'n cael eu monitro yn ystod cyfarfodydd 'Yr Iaith ar Waith' a gynhelir bob chwarter. Mae copi o Strategaeth y Gymraeg ar gael ar wefan SCHTh. Bydd strategaeth newydd yn cael ei chreu yn 2022.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu'n gweithio'n agos iawn gyda Heddlu Dyfed-Powys ac mae pob gohebiaeth, hyfforddiant, cyfleoedd, adnoddau ac ati yn cael eu rhannu gyda SCHTh ar lwyfan gwastad sy'n sicrhau bod staff SCHTh yn cael mynediad i'r un deunyddiau â staff a swyddogion yr Heddlu. Mae aelod o dîm SCHTh yn mynychu cyfarfodydd chwarterol Yr Iaith ar Waith yr Heddlu sy'n rhoi cyfle i'r swyddfa rannu arferion gorau a deall unrhyw faterion y gallai'r Heddlu fod yn eu hwynebu o ran y Gymraeg.

## 4. Cyflawniadau

**Mawrth Mawr**
**Ymgyrch Fewnol y Gymraeg**


Ar ddydd Gŵyl Dewi eleni, cafodd digwyddiad mewnol ar-lein ei gynnal gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl a oedd yn cynnwys nifer o siaradwyr gwadd. Pwrpas y digwyddiad oedd rhoi cyfle i staff a swyddogion drafod unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a gwrando ar siaradwyr ysbrydoledig a bwysleisiodd beth mae'r Gymraeg yn ei olygu iddynt. Yn ystod y digwyddiad, lansiwyd hefyd yr ymgyrch Gymraeg fewnol (mis o hyd) gyda'r themâu canlynol:

- Safonau'r Gymraeg
- Cael hwyl gyda'r Gymraeg
- Gwersi Cymraeg
- Deall a chwalu rhwystrau

Yn ogystal â'r digwyddiad ar-lein, cafodd arolwg ei greu er mwyn i staff a Swyddogion ei gwblhau yn ddienw. Pwrpas yr arolwg oedd deall pa gefnogaeth oedd ei hangen ar y gweithlu i wella'u gallu o ran y Gymraeg, er mwyn deall unrhyw rwystrau y gallent fod yn eu hwynebu i wella'r gwasanaeth a roddwn i'n cymunedau.

**Cyfathrebu Allanol**

Cafodd fideo ei gyhoeddi ar sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Heddlu i ddathlu pum mlynedd ers cyflwyno'r safonau yn SCHTh a Heddlu Dyfed-Powys; roedd yn canolbwyntio ar sut rydym yn parhau i wasanaethu'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg a sut mae siarad Cymraeg yn ein helpu i gysylltu'n well â'n cymunedau: Gellir gweld hwn yma.






**Y Cynllun Mentora**

Mae'r Cynllun Mentora wedi parhau eleni; mae'n gynllun mewnol i gefnogi staff a swyddogion yr heddlu i fagu hyder wrth siarad Cymraeg. Mae'n paru siaradwr Cymraeg hyderus gyda dysgwr neu siaradwr llai hyderus ac maen nhw'n cael sgyrsiau rheolaidd yn Gymraeg. Mae hyn yn annog cynnydd o ran defnydd mewnol o'r Gymraeg ac yn helpu siaradwyr Cymraeg llai hyderus i deimlo'n fwy cyfforddus wrth ddefnyddio'r iaith.

**Cefnogi ffyrdd amrywiol o ddysgu**

Mae SCHTh yn cydnabod bod pobl yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol ac ar gyflymder gwahanol, felly rydym wedi trefnu ffyrdd gwahanol o helpu pobl i ddysgu a chyrraedd eu lefel ddymunol o Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys trefnu cyrsiau mewnol, galluogi staff a swyddogion i ddysgu drwy gwrs ar-lein a chefnogi'r rhai sy'n dymuno mynychu cyrsiau yn eu cymunedau. Mae gennym hefyd dudalen fewnrwyd hawdd mynd ati sy'n arwain pobl at yr opsiwn gorau ar eu cyfer o ran dysgu. Mae'r holl gyrsiau'n cael eu hariannu'n llawn gan SCHTh a'r Heddlu, ac mae'r dysgu'n digwydd wneud yn ystod amser gwaith.

**Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg**
Yn ystod digwyddiadau cynefino, mae swyddogion a staff newydd yn derbyn cyflwyniad i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Yn y cyflwyniad hwn, maen nhw'n cael hanes byr am ddiwylliant Cymru, llinell amser yr iaith Gymraeg a gwybodaeth am yr adnoddau cymorth sydd ar gael. Hefyd, rhoddir ffigurau mewn perthynas â siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, a sut y byddwn yn darparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cymunedau drwy gyfathrebu yn eu dewis iaith, gan dynnu sylw at y ffaith bod hyn yn ofyniad cyfreithiol. Mae'r tabl isod yn dangos y cyflwyniadau a ddarparwyd o Ebrill 2019 a Mawrth 2020:

**Adnoddau er mwyn helpu staff a swyddogion**
Caiff adnoddau eu e-bostio a'u dosbarthu yn ystod cyflwyniadau i'w helpu i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae'r adnoddau'n cynnwys llyfryn manwl sy'n rhoi eglurhad pellach ynglŷn â'r Safonau. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys disgrifiadau manwl o'r Safonau, ynghyd â thempledi defnyddiol er mwyn cynorthwyo swyddogion a staff â hysbysiadau 'allan o'r swyddfa', llofnodion e-bost ac ati. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod ein hadnodd 'rhestr wirio pen desg' ar gael i bawb. Mae'r adnodd bach defnyddiol hwn yn ganllaw sydyn sy'n cynnwys yr holl dempledi sydd eu hangen o ganlyniad i Safonau'r Gymraeg, manylion ynghylch sut i ddefnyddio'r Uned Gyfieithu, pethau i'w hystyried wrth drefnu cyfarfod, ateb galwad ffôn ac ati.

| Teitl y Digwyddiad | Dyddiad y digwyddiad |
|---|---|
| Mewnbwn Recriwtiaid Newydd | Mehefin 2021 |
| Mewnbwn Ymwybyddiaeth ar gyfer Swyddogion sydd wedi Trosglwyddo | Medi 2021 |
| Mewnbwn Recriwtiaid Newydd Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu | Medi 2021 |
| Recriwtiaid newydd | Hydref 2021 |
| Mewnbwn Ymwybyddiaeth ar gyfer Swyddogion sydd wedi Trosglwyddo | Mawrth 2022 |
| Mewnbwn Recriwtiaid Newydd | Mawrth 2022 |



Mae'r adnoddau Cymraeg ar gael ar dudalen fewnrwyd yr Heddlu sy'n gwbl hygyrch i staff SCHTh. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan yr holl swyddogion ac aelodau staff fynediad i'r adnoddau bob amser. Crëwyd adnodd ychwanegol yn arbennig ar gyfer y fewnrwyd, sef 'map geiriau'. Rhestr o eiriau, enwau a thermau, o deitlau rhengoedd i deitlau lleoliadau, a chwestiynau cyffredin, yw'r 'map geiriau'. Rydym hefyd wedi atodi ffeil sain i'r geiriau er mwyn helpu staff sydd ddim yn siarad Cymraeg i ymarfer ynganu'r geiriau.

## 5. Cydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg ac mewn Partneriaeth

Mae SCHTh a'r Heddlu wedi manteisio ar bob cyfle i fynychu digwyddiadau a drefnwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn gwella ar ein gwasanaethau.

**Diwrnod Hawliau'r Gymraeg**
Er mwyn dathlu Diwrnod Hawliau'r Gymraeg ar 7 Rhagfyr 2021, trefnwyd ymgyrch allanol trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr Heddlu. Roedd yn cynnwys fideo yn atgoffa ein cymunedau ein bod yn cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog:




**Fforwm Strategol Cyngor Sir Gâr**
Yn ystod 2021-2022, roedd cynrychiolydd o SCHTh ar Fforwm Strategol Cyngor Sir Caerfyrddin gyda phartneriaid yn cynnwys Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, HDP, a nifer o randdeiliaid pwysig eraill. Nod y Fforwm Strategol yw sicrhau bod strategaeth y Gymraeg newydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyd-fynd â gwaith pob corff cyhoeddus yn y rhanbarthau ac yn ein galluogi i nodi unrhyw gyfleoedd allweddol i weithredu ar y cyd er mwyn y Gymraeg.

## 6. Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Dros gyfnod o dri mis ar ddechrau 2022, fe gynhaliodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wiriadau ar wasanaethau Cymraeg SCHTh. Roedd canlyniadau'r monitro

a'r gydymffurfiaeth yn gadarnhaol iawn ac mae SCHTh yn symud ymlaen gyda chamau gweithredu er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau disgwyliedig.

**Gohebiaeth**

- Roedd SCHTh yn cydymffurfio â'r holl safonau perthnasol

**Ffôn**

- Barnwyd bod SCHTh yn cydymffurfio â'r holl safonau perthnasol.

**Cyhoeddusrwydd a hysbysebu**

- Cafodd 3 sampl o wahanol ddeunyddiau cyhoeddusrwydd neu hysbysebu eu gwirio ac nid oedd dau o'r samplau yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau cysylltiedig - un trydariad - ail-drydar y neges Saesneg lle'r oedd dewis arall, Cymraeg ar gael i'w ail-drydar. Roedd gan un neges ar Facebook animeiddiad lle roedd y pennawd 'Safer Streets' yn Saesneg yn hytrach nag yn Gymraeg.

  *Mae dysgu mewn perthynas â hyn wedi cael ei fwydo'n ôl i swyddogion perthnasol o fewn SCHTh, sydd wedi rhoi mesurau ar waith i wella cydymffurfiaeth â'r safonau.*

**Dogfennau**

- Cafodd 3 sampl o wahanol ddogfennau oedd ar gael ar y wefan eu gwirio ac roedd y 3 ar gael yn Gymraeg. Ond o dan safon 47, mae'n rhaid nodi ar y fersiynau Saesneg o’r dogfennau eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg. Nid oedd y 3 dogfen a gafodd eu hadolygu yn cynnwys y wybodaeth hon.

  *Mae holl staff CHTh wedi cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau o ran cydymffurfio â safon 47. Mae ymarfer yn cael ei gynnal i adolygu'r holl ddogfennau ar ein gwefan a diweddaru dogfennau yn unol â hynny lle bo angen. Mae disgwyl i hyn gael ei gwblhau erbyn Medi 2022.*

**Ffurflenni**

- Cafodd 3 sampl o wahanol ffurflenni oedd ar gael ar y wefan eu gwirio ac roedd y 3 ar gael yn Gymraeg.

**Gwefan**

- Cafodd 15 sampl o dudalennau o'r brif wefan eu gwirio ac fe gydymffurfiodd pob un o'r 15, ar y cyfan, â'r safonau cysylltiedig. Roedd y tudalennau i gyd ar gael yn Gymraeg gan fwyaf, ond mae dolenni’r ddewislen ar waelod y tudalennau yn uniaith Saesneg - newyddion diweddaraf, dolenni defnyddiol a chysylltu â ni. Nid yw hyn yn cydymffurfio â safon 53.

  *Erbyn hyn mae dolenni’r ddewislen i gyd wedi'u cywiro.*

### Cyfryngau Cymdeithasol

- Samplwyd 10 neges Twitter o'r prif gyfrif ac roedd pob un ohonynt ar gael yn Gymraeg ac yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol, ar wahân i un enghraifft y tynnwyd sylw ati uchod, lle roeddem wedi aildrydar neges Saesneg lle'r oedd un Gymraeg ar gael. Roedd enghraifft arall a nodwyd lle nad oedd y gair 'race relations Wales' wedi ei gyfieithu. Nid yw hyn yn cydymffurfio â safon 55.

  *Fel yr uchod – Cyhoeddusrwydd a hysbysebu*

- Samplwyd 10 neges Facebook o'r prif gyfrif ac roedd pob un ohonynt ar gael yn Gymraeg ac yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol.

### Hunaniaeth gorfforaethol

- Cafodd 3 sampl o wahanol enghreifftiau eu gwirio ac fe gydymffurfiodd y tri yn llawn â'r safon gysylltiedig.

### Recriwtio

- Nid oedd swyddi'n cael eu hysbysebu ar adeg gwirio.

### Gweithdrefn Gwyno

- Nid yw gweithdrefn gwynion SCHTh yn cyfeirio at gwynion yn ymwneud â'r safonau ac at y categorïau safonau, nad yw'n cydymffurfio â safonau 153 a 159.

  *Mae hyn bellach wedi ei gywiro a'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg.*

### Adroddiad Blynyddol

- Mae Safonau 155, 161 a 167 yn ei gwneud yn ofynnol i SCHTh gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n ymwneud â sut yr oeddech yn cydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, safonau polisi a safonau gweithredol. Yn eich holiadur safonau atodol fe gyfeirioch chi at adroddiad blynyddol Heddlu Dyfed-Powys, fodd bynnag, mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i SCHTh gynhyrchu ei adroddiad ei hun sy'n annibynnol o adroddiad Heddlu Dyfed-Powys.

  *Mae adroddiad SCHTh wedi ei gynhyrchu.*

## 7. Cyrsiau Cymraeg

Yn 2017, cyhoeddodd yr Heddlu ei Bolisi Gwersi Cymraeg newydd sydd yr un mor berthnasol i bawb yn SCHTh. Yn y polisi hwn, mae'n datgan ymrwymiad SCHTh a'r Heddlu i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd ar gyfer dysgu'r Gymraeg. Yn y polisi hwn, ceir manylion am y cymorth sydd ar gael i swyddogion a staff ar gyfer dysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau ieithyddol.

Mae'r Heddlu wedi parhau i sicrhau bod gwersi Cymraeg yn cael eu darparu a'u cefnogi a bod y rhain ar gael yn llawn i bob aelod o staff y Comisiynydd. Yn ystod 2021-2022, trefnwyd cwrs dechreuwyr i staff a swyddogion ei gwblhau ar-lein. Roedd y cyrsiau hyn wedi'u hariannu'n llawn a rhoddwyd amser yn ystod oriau gwaith i ddysgwyr i gwblhau'r cwrs.

Yn anffodus, oherwydd y Coronafeirws, nid yw cyrsiau Cymraeg wedi'u cynnal wyneb yn wyneb eleni, ond cafodd staff a swyddogion eu hannog i fynychu cyrsiau yn eu cymunedau. Ar hyn o bryd, mae'r Heddlu'n cyrchu gwersi wyneb yn wyneg ar gyfer y flwyddyn i ddod a fydd unwaith eto'n gwbl hygyrch i staff SCHTh.

Mae'r Heddlu'n ymdrechu i gynyddu eu ffordd o ddarparu cyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg i'w staff a'u swyddogion, ac mae hynny'n cynnwys staff o SCHTh. Ar hyn o bryd mae'r cyrsiau canlynol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg; pan gaiff rhywun wahoddiad i hyfforddiant fe gynigir y rhain iddynt yn y Gymraeg hefyd:

- Pecyn ymsefydlu
- Hyfforddiant recriwtio, cyfweld a rhestr fer (CVF)
- Mewnbwn hyfforddi Safonau Proffesiynol

Ni ofynnwyd am yr un o'r cyrsiau uchod yn y Gymraeg eleni ond ein nod yw hyrwyddo'r cyrsiau Cymraeg sydd ar gael yn ehangach fel bod mwy o bobl yn mynychu'r opsiynau cyfrwng Cymraeg. Wrth symud ymlaen, gobeithiwn gynyddu nifer y cyrsiau a gynigir yn y Gymraeg fel bod staff a swyddogion yn gallu cwblhau cymaint o'u hyfforddiant â phosib drwy gyfrwng y Gymraeg, pe baen nhw'n dymuno gwneud hynny.

## 8. Gallu staff o ran y Gymraeg

**Gallu arddangos cwrteisi ieithyddol Cymraeg sylfaenol**

Mae'n bwysig i weithlu SCHTh gynrychioli'r cymunedau y mae'n gwasanaethu ynddynt. Fel swyddfa, rydym yn falch o'n hunaniaeth Gymreig ac yn dymuno annog staff i gefnogi ein holl drigolion. Rydym yn credu ei bod yn bwysig iawn i'n staff allu arddangos cwrteisi ieithyddol Cymraeg sylfaenol i'n trigolion ac i'n gilydd. Er mwyn sicrhau hyn, mae SCHTh wedi ymrwymo i gael gweithlu sy'n gallu sgwrsio'n Gymraeg ar lefel 1 fel isafswm.

Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, o fis Ebrill 2019 mae pob proffil rôl newydd ar gyfer staff yn nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel 1 neu fod yn barod i gyflawni hyn o fewn 6 mis ar ôl eu

penodi. Mae hyn yn cael ei fonitro drwy gyfnod prawf y personau a'u Proffil Datblygu ac Asesu a rhoddir mwy o gymorth os oes angen.
Os nad yw unigolyn yn cwrdd â'r gofyn, byddant yn symud ymlaen trwy gamau perfformiad ffurfiol.
Mae'r tabl canlynol yn dangos lefelau sgiliau Cymraeg ar gyfer siarad a deall o fewn SCHTh:

| | **Mai-17** | **Mai-18** | **Mehefin-19** | **Mawrth-20** | **Ebrill-21** | **Mawrth-22** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 0 | 0 | 11 | 11 | 8 | 6 | 6 |
| Lefel 1 | 6 | 7 | 9 | 12 | 13 | 13 |
| Lefel 2 | 1 | 4 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Lefel 3 | 2 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| Lefel 4 | 3 | 3 | 3 | 7 | 9 | 10 |
| Lefel 5 | 6 | 11 | 11 | 8 | 6 | 6 |
| Heb ddatgan | 26 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 44 | 37 | 39 | 36 | 36 | 37 |

Mae nifer y staff sydd â Chymraeg lefel 0 ar ei hisaf ers i'r safonau gael eu cyflwyno, ac mae lefel 1 yn cynyddu bob blwyddyn. Mae nifer y rhai sydd â lefelau 4 a 5 ar ei huchaf gyda 43% o staff SCHTh yn datgan eu gallu ar y lefel hon ar hyn o bryd.
Rydym yn rhagweld y bydd lefelau Cymraeg SCHTh yn parhau i gynyddu wrth i wersi Cymraeg ddal i gael eu cynnig.
Rydym yn parhau i annog gweithwyr i gadw eu gwybodaeth yn gyfredol ac yn gofyn i staff ddiweddaru eu gallu o ran y Gymraeg trwy gyfathrebu mewnol ac wrth ddarparu mewnbynnau Cymraeg.
Ceir y disgrifiad o lefelau'r Gymraeg ar dudalen 15 o'r adroddiad hwn

## 9. Swyddi gwag

O 1 Ebrill 2019, mae pob rôl yn gofyn am Gymraeg Lefel 1 neu mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod yn barod i gyflawni hynny o fewn 6 mis i'w penodi.

**1 Ebrill, 2020 – 31 Mawrth, 2021**

| **Categori** | **Nifer y swyddi gwag** |
|---|---|
| Y Gymraeg yn hanfodol | 3 |

| | |
|---|---|
| Roedd angen dysgu Cymraeg pan benodwyd i'r swydd | 3 |

| Categori | Nifer y swyddi gwag |
|---|---|
| Cymraeg Lefel 1 | 3 |
| Cymraeg Lefel 2 | |
| Cymraeg Lefel 3 | 1 |
| Cymraeg Lefel 4 | 2 |
| Cymraeg Lefel 5 | |

Penodwyd Prif Gwnstabl newydd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fel rhan o'r broses hon, fe roddodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bwyslais ar y gofyniad am:
"Parodrwydd i ddysgu Cymraeg sylfaenol, fel isafswm, er mwyn cysylltu gyda chymunedau lleol. Bydd y Comisiynydd yn annog hyn ac yn sicrhau bod cymorth a hyfforddiant priodol ar gael yn y Gymraeg."

## 10. Llunio Polisi

**Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb**
Mae SCHTh yn rhannu'r Mwyafrif o Bolisïau a Gweithdrefnau gyda'r Heddlu ac o'r herwydd yn cadw at yr un safonau. Cynhelir Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw Bolisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd y mae SCHTh a'r Heddlu'n ymgymryd â nhw i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac nad ydynt yn cael effaith andwyol na negyddol ar unrhyw grwpiau penodol o bobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan asesu'r effaith y gallen nhw eu cael ar berson.
Maent wedi cynnwys y Gymraeg o fewn yr asesiad hwn er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei hystyried bob amser. Mae'r cwestiwn yn gofyn:
*'Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae angen i'r ystyriaethau canlynol hefyd gael eu gwneud o ran y Gymraeg:*

*Tystiolaeth o sut rydych chi wedi ystyried sut y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar -*

*(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

*Tystiolaeth o sut rydych chi wedi ystyried sut na fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar —*
*(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Pryd bynnag y mae SCHTh yn cyflawni darn annibynnol o waith rydym hefyd yn sicrhau bod asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal. Dyma enghreifftiau o'r rhain:

- Asesiad o effaith ar gydraddoldeb Praesept Treth y Cyngor
- Asesiad o effaith ar gydraddoldeb yr Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu
- Asesiad o effaith ar gydraddoldeb y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr
- Asesiad o effaith ar gydraddoldeb Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Asesiad o effaith ar gydraddoldeb Y Cynllun Heddlu a Throseddu

Mae'r rhain i gyd yn cael eu cyhoeddi ac maent ar gael i'w gweld ar ein gwefan.

## 11. Anfodlonrwydd

Ni dderbyniodd SCHTh unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

## 12. Lefelau'r Gymraeg

| Ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn SCHTh/yr Heddlu | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Lefel 4** | **Lefel 5** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yn y swyddfa** | Yn gallu dweud enwau lleoedd/enwau cyntaf Cymraeg neu arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu adnabod adrannau / lleoliadau / rhengoedd yn Gymraeg. Yn gallu cyfarch a chyflwyno pobl eraill yn Gymraeg. | Yn gallu deall hanfod sgwrs yn Gymraeg. Yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol e.e. gweinyddu syml, neu dasgau arferol. | Yn gallu deall llawer yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd. Yn gallu derbyn a throsglwyddo negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw yn ystod diwrnod gwaith arferol. | Yn gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd o fewn eu maes gwaith eu hunain a dadlau o blaid neu yn erbyn achos. | Yn gallu cyfweld ag ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg am swyddi ac asesu eu haddasrwydd. |
| **Dyletswyddau Swyddogion Heddlu** | Yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol drwy agor a chloi sgwrs. Yn gallu rhoi, a derbyn manylion personol. Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau cyntaf neu arwyddion Cymraeg yn gywir. | Yn gallu deall hanfod cais gan y cyhoedd ac ymateb i geisiadau syml. Yn gallu rhoi a derbyn cyfarwyddiadau. | Yn gallu sgwrsio'n rhannol yn Gymraeg ond troi i'r Saesneg mewn trafodaeth ac i roi gwybodaeth fanwl. Yn gallu disgrifio pobl a lleoliadau. | Yn gallu delio â'r cyhoedd yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd yn y Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth ddefnyddio terminoleg plismona / technegol. | Yn gallu delio'n effeithiol ag ymholiadau cymhleth gan y cyhoedd neu wrthdaro yn y Gymraeg. Yn gallu cyfweld neu holi cwestiwn yn Gymraeg yn ystod ymchwiliad. |
| **Cownter / Derbynfa Gorsaf yr Heddlu / Ar y ffôn** | Yn gallu rhoi cyfarchiad dwyieithog sy'n addas i leoliad. Yn gallu cyfarch ymwelwyr a galluogi dewis iaith. | Yn gallu deall ceisiadau am gymorth ac ymateb yn Gymraeg i geisiadau syml. Yn gallu defnyddio'r Gymraeg i drosglwyddo galwadau. | Yn gallu ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Yn gallu cymryd manylion neu wneud nodyn o sgwrs Gymraeg. | Yn gallu delio ag ymholiadau yn effeithiol. Yn gallu deall gwahaniaethau tafodieithol. | Yn gallu delio ag ymholiadau neu gwynion cymhleth neu sensitif gan y cyhoedd a delio'n hyderus â chwestiynau anghyfeillgar. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarfodydd Cyhoeddus / Siarad â'r Cyfryngau** | Yn gallu agor a chloi cyfarfodydd a chroesawu'r cyfranogwyr yn y ddwy iaith. | Yn gallu cyflwyno'i hun ac eraill yn ôl enw, rheng, rôl, a lleoliad/ sefydliad. Yn gallu cyfrannu i gyfarfod yn rhannol yn Gymraeg. | Yn gallu sgwrsio neu gyflwyno yn rhannol yn Gymraeg ond troi i'r Saesneg wrth drafod manylder busnes craidd, ateb cwestiynau neu ddefnyddio gwybodaeth gymhleth. | Yn gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg. Yn gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn y Gymraeg, ond troi i'r Saesneg am dermau technegol neu blismona. | Yn gallu rhoi cyflwyniadau yn Gymraeg. Yn gallu ateb cwestiynau cymhleth neu anghyfeillgar yn Gymraeg i'r graddau bod ganddynt y wybodaeth arbenigol angenrheidiol. |
| **Ysgrifennu** | Yn gallu ysgrifennu cais arferol syml i gyd-weithiwr, fel 'Ga i.... os gwelwch yn dda?' | Yn gallu ysgrifennu nodyn byr o gais i gyd-weithiwr neu gyswllt allanol cyfarwydd. | Yn gallu ysgrifennu memos mewnol anffurfiol, Yn gallu anfon negeseuon e-bost a delio â cheisiadau arferol. | Gyda chymorth golygyddol, yn gallu ysgrifennu llythyrau busnes, e-byst a phosteri i gwsmeriaid allanol. | Yn gallu ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau a gwneud nodiadau llawn a chywir mewn cyfarfod. |

**Gwybodaeth Bellach**

Os oes angen rhagor owybodaeth arnoch am yr Adroddiad Iaith Blynyddol;

e-bostiwch opcc@dyfed-powys.police.uk